

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl gyda nodwedd warchoddedig).

1 Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas y Cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Wedi ei gychwyn 27 Chwefror 2019
Fersiwn 2 wedi ei gychwyn 26 Medi 2019
Fersiwn 3 wedi ei gychwyn 11 Chwefror 2020

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio gyda nhw i wneud yr asesiad yma?

- Grŵp Craidd Cydraddoldeb,
- Y Cyhoedd, yn arbennig pobl gyda nodweddion gwarchoddedig penodol
- Cabinet ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchoddedig?

Cynhaliwyd dau sesiwn cychwynnol gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb. Y Cynllun drafft oedd ymateb y Cyngor i'w sylwadau. Cynhaliwyd trafodaeth bellach gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb ar 16 Ionawr 2020.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn gyffredinol rhwng 16 Rhagfyr a 7 Chwefror trwy holiadur ar bapur (gan gynnwys hawdd i'w ddarllen) ac ar-lein. Hysbyswyd tua 150 o fudiadau am yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd cyfarfod gyda dau grŵp Hunan-Adfocatiaeth Amhariad Dysgu lle'r oedd pawb yn gefnogol i'r Amcanion a lle rhannwyd yr holiaduron hawdd-eu-darllen. Anfonwyd copi papur i aelodau'r Cyngor Pobl Hŷn. Ceisiwyd trefnu cyfarfod gyda Clwb Ieuenctid LHDT+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) ond ni fu'n bosib gwneud hynny. Derbyniwyd 190 o ymatebion.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn y cyfarfodydd cychwynnol cododd y Grŵp Craidd Cydraddoldeb nifer o faterion oedd angen sylw yn y meysydd canlynol:

Addysg
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd
Cyfiawnder a Diogelwch Cymdeithasol
Cyfranogiad
Safonau byw
Cyflogaeth

Mae'r materion yma'n cael sylw gan y gwasanaethau perthnasol.

Yng nghyfarfod mis Ionawr oeddynt yn gefnogol i gyfeiriad y cynllun ac yn cytuno gyda'r Amcanion ond roedd ganddynt sylwadau am bob un ohonynt. Roedd rhai sylwadau ynglŷn â geiriad a diwyg y Cynllun ac rydym wedi ceisio ymateb i'r rheini. Roedd rhai pethau'n weithredol, sy'n cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaeth perthnasol. Yn ogystal:

Amcan 1

- Pwysig sicrhau bod y bobl iawn yn hyfforddi
- Angen rhywbeth bod 2-3 mlynedd ond fod o ddim yn ymarferiad 'ticio bocs'.
- Angen codi ymwybyddiaeth o anabledd 'anweladwy'
- Angen derbyn y 'model cymdeithasol'
- Eisiau cyhoeddi rhestr mynychu hyfforddiant Aelodau Etholedig gael ei wneud (fel

- presenoldeb mewn Cyngor llawn / cyfarfodydd)
- Gwella dealltwriaeth fod pawb â nodweddion
- Dealltwriaeth nid ymwybyddiaeth o gydraddoldeb
- Rhaid teilwra'r hyfforddiant
- Hyfforddi pobl fel eu bod yn gallu dysgu eraill am fynediad ayb
- Sicrhau adnoddau
- Sicrhau adborth e.e. siopwr dirgel

Amcan 2

- Angen gwella dealltwriaeth o wir anghenion pobl - dim 'ticio blychau'
- Dysgu gan eraill e.e. BIPBC

Amcan 3

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd asesiad effaith - ei godi i'r un statws ag Asesiadau Diogelwch.
- Oes modd cael person dynodedig sy'n gyfrifol am hyn yn bob adran?

Amcan 4

- Angen edrych pa rwystrau sy'n achosi bwlch cyflog e.e. oes angen system 'fflecsi' fwy hyblyg?
- Efallai na fydd pobl anabl yn gallu gweithio llawn amser

Amcan 5

- Pam fod y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' ddim yn digwydd tan Fedi 2022?
- Gwella mynediad yn gyffredinol
- Cofio am Gynllun Mynediad i Waith

O'r 190 o ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur, roedd y rhan fwyaf yn gefnogol o'r 5 Amcan. Mae'r manylion fel a ganlyn:

Yda chi'n cytuno hefo Amcan 1? Ydw 179, Nac ydw 11

Roedd rhesymau a roddwyd am ddweud "nac ydw" oedd: costau'r hyfforddiant, dylai pawb fod yn gweithredu fel hyn yn barod, y gallai ystyried y Gymraeg fel rhan o Gydraddoldeb fod yn annheg i rai nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg. Roedd dau berson yn dweud fod cydraddoldeb yn ormod o waith / yn amherthnasol.

Yda chi'n cytuno hefo Amcan 2? Ydw 182, Nac ydw 8

Y rhesymau a roddwyd am ddweud "nac ydw" oedd: pryder am breifatrwydd a sensitifrwydd y nodweddion a'r dylai'r wybodaeth fod gennym yn barod. Un yn dweud mai dim ond rhai pobl mewn swyddi o bŵer oedd yn cael eu diogelu.

Yda chi'n cytuno hefo Amcan 3? Ydw 179, Nac ydw 11

Y prif reswm am ddweud "nac ydw" yma oedd bod o'n wastraff amser ac arian (ymarferiad ticio bocsys yn hytrach na gwaith iawn). Roedd rhai yn nodi nad oedd digon o wybodaeth er mwyn ateb y cwestiwn ac un person yn meddwl na fyddai'r canlyniad yn cyflawni gweledigaeth Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yda chi'n cytuno hefo Amcan 4? Ydw 175, Nac ydw 15

Y prif reswm yma oedd y gost gyda rhai yn poeni y byddai'n arwain at golli swyddi fyddai'n effeithio ar wasanaeth neu'n cyfyngu dewisiadau'r cyflogwr. Roedd rhai pobl yn sôn am dâl cyfartal am yr un swyddi ac yn credu y dylai fod yn digwydd yn barod. Roedd 2 berson yn dweud nad oedd bwlch tal yn bodoli ac un yn dweud fod eisiau cael gwared ar y bwlch, nid ei leihau.

Yda chi'n cytuno hefo Amcan 5? Ydw 171, Nac ydw 19

Roedd pryder y byddai'r amcan yma'n arwain at wahaniaethu positif. Tri pherson eisiau sicrhau swyddi i bobl leol a dau yn teimlo fod angen nodi sut y byddem yn cyflawni'r amcan.

Roedd siawns i'r rhai oedd yn llenwi'r holiadur ateb 2 gwestiwn ychwanegol hefyd:

Oes unrhyw beth arall y dylai'r Cyngor ystyried ei gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb 2020-2024?

Derbyniwyd 60 ymateb i'r cwestiwn yma. Y prif negeseuon oedd:

- Yr angen i feddwl am bobl anabl - materion mynediad ffisegol i adeiladau er mwyn caniatáu i bobl anabl fyw'n annibynnol. Cynnwys pobl anabl wrth wneud y gwaith er mwyn cael dealltwriaeth o anghenion. Cofio fod anabledd ddim yn golygu defnyddiwr cadair olwyn yn unig. Angen ystyried anghenion pobl gyda amhariadau ffisegol gwahanol. Adnabod amhariadau cudd yn enwedig wrth ystyried toiledau hygrych, defnyddio'r ffôn. Talu pobl anabl.
- Sylwadau am y Cynllun a'r holiadur yn gyffredinol - Wedi cynnwys pawb. Anhapusrwydd gyda ffurf yr holiadur. Sicrhau ei fod yn cadarnhau'r hyn ddisgwyllir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dechrau da o ystyried y cyfyngiadau ariannol ond mwy i'w wneud Angen ail-ymweld gyda'r cynllun ar ôl derbyn canlyniadau cyfrifiad 2022 er mwyn addasu yn ôl yr angen. Gormod o ffocws ar staff y Cyngor yn lle pobl Gwynedd - lle mae cydraddoldeb i bobl ifanc a phobl hŷn ynddo? Angen sicrhau fod hi dal yn bosib cyflawni'r cynllun beth bynnag fo'r sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol
- Iaith - rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod cynnwys y Gymraeg fel nodwedd yn gwahaniaethu yn erbyn rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg/dysgwyr a lleiafrifoedd ethnig. Teimlad bod rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu heithrio o gyfleoedd gwaith o fewn y Cyngor. Eisiau gweld cyfleoedd addysg cyfrwng Saesneg.
- Bod yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a trawsrywiol.
- Hyfforddiant - cyrsiau rheoli i weithwyr benywaidd, cyrsiau arbenigol i reolwyr i gefnogi'r amcanion, helpu gweithwyr i ledaenu cydraddoldeb drwy boblogaeth Gwynedd, dysgu cydraddoldeb mewn ysgolion.
- Y cynllun yn rhy amwys – angen gallu mesur ac adnabod beth yw llwyddiant yr Amcanion. Hefyd beth yw'r gost?
- Dim angen Cynllun o'r fath, gwneud gwaith iawn yn ei le. Gwastraff arian sydd ddim am helpu pobl Gwynedd.
- Bwlch tâl - angen i adnabod y rhesymau tu ôl i'r bwlch, adnabod y posibilrwydd y gallai gael ei leihau'n 'artiffisial' gan hunan-adnabyddiaeth rhyw
- Materion gwledig – anghydraddoldeb gwasanaethau a chyfle rhwng y wlad a'r dref, cyflwr lonydd

Hefyd nodwyd y canlynol

- Gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig
- Edrych ar wneuthuriad grwpiau a phwyllgorau o safbwynt nodweddion cydraddoldeb
- Siawns i bobl hŷn rannu profiad gyda gweithwyr ifanc
- Yr angen i gyfarch tlodi ymysg pobl hŷn
- Pobl sydd eisiau dychwelyd i Wynedd yn gorfod talu mwy o dreth Cyngor
- Cydraddoldeb rhwng ardaloedd yng Ngwynedd
- Sut i sicrhau fod pobl Gwynedd yn deall materion cydraddoldeb?
- Cadw materion, e.e. cynllunio, yn breifat os oes peryg i bobl ddod i wybod am nodweddion cydraddoldeb y person a darparu ffordd hygrych o gysylltu

- Ystyried pobl leol gyntaf
- Mwy o hyblygrwydd o fewn y gweithlu
- Anghenion pobl sydd ddim yn defnyddio'r we i gael fersiynau papur – anfon rhai i bob tŷ
- Mesur y defnydd o wasanaethau cyhoeddus gan grwpiau lleiafrifol
- Pwysigrwydd trafniadaeth gyhoeddus ar gyfer pawb er mwyn apwyntiadau iechyd, siopio, cymdeithasu, gwirfoddoli ayb
- Cofio fod ecwiti'r un mor bwysig â chydaddoldeb a bod 9 nodwedd.
- Ystyried effaith penderfyniad ar ferched a dynion
- Cwestiwn am Gyngor Cymuned

Nodwch unrhyw sylw pellach os gwelwch yn dda:

Derbyniwyd 39 sylw yma

- Sylwadau cyffredinol ar y cynllun - Angen cynllun gweithredu manwl gyda targedau mesuradwy. Gobeithio fod gwaith wedi ei wneud yn barod yn enwedig ar Amcanion 1 a 2. Croesawu rhoi pwyslais ar gasglu data a gwybodaeth er mwyn cael sylfaen cryf, ticio bocs sy'n costio gormod. Mae angen cydbwysedd i sicrhau na chaiff ei wneud yn ormodol. Croesawu'r cynllun - maes pwysig. Mae'n gyraeddadwy. Y Cyngor yn datblygu. Peidio hybu rhai nodweddion yn fwy na'i gilydd.
- Iaith - Pryder bod ansawdd Saesneg yn cael ei gyfaddawdu o ganlyniad i addysg cyfrwng Cymraeg ac yn atal pobl ifanc rhag cael gwaith ystyrion. Cred na ddylai'r Gymraeg fod yn nodwedd, a bod angen sicrhau nad oes rhwystrau i bobl gael gafael ar wasanaethau llawn drwy gyfrwng y Saesneg
- Aelodau Etholedig - Dylai'r Cabinet fod yn 50:50 merched a dynion, ac mae angen newid trefniadau'n hollol i sicrhau fod merched yn cael tegwch yn y gweithlu. Cyngorwyr i gofio geiriau Martin Luther King "It's not the colour of their skin, but the content of their character" fel metaffor am ddelio gyda pobl yn gyffredinol. Edrych ar daliadau Cyngorwyr
- Angen sicrhau fod pobl yn gallu rhoi sylwadau, cwynion ayb pan mae nhw eisiau, trwy ddarparu ffordd hygyrch o wneud hynny. Sicrhau fod sylw teilwng ac atebion yn cael eu darparu.
- Cefnogaeth well i bobl ifanc LHDT+ e.e. ariannu grŵp GISDA a herio homoffobia yn gyffredinol
- Angen mwy o wybodaeth am yr ymarferoldeb cyflawni e.e. hyfforddiant
- Cwestiwn am Gyngor Cymuned
- Angen Swyddog Cydraddoldeb Anabledd
- Sut mae Brexit am effeithio cydraddoldeb

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

O edrych ar y materion adnabuwyd gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn y cyfarfodydd cychwynnol mae'r rhan fwyaf ohonynt yn faterion gweithredol yn perthyn i'r Adrannau. Penderfynwyd mai'r ffordd orau o'u cyfarch byddai cymryd cam yn ôl ac edrych ar systemau mewnol y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth ar draws waith y Cyngor, nid y pethau a adnabuwyd yn unig. Bydd unrhyw fater gweithredol o'r ymgynghoriad, e.e. trafniadaeth, yn cael ei drin yr un ffordd.

Y prif ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ydi:

['A yw Cymru'n Decach? 2018'](#) (adroddiad cyflwr-y-genedl diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ymateb Awdurdodau Cymru i'r Ddyletswydd Gyffredinol

Dogfen Data Rhanbarthol

Gwybodaeth a gasglwyd o arolygon blaenorol

[Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn](#)

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae yna fylchau yn y data sydd ar gael yn lleol, mae'n debyg oherwydd niferoedd isel. Bydd angen gweld os yw'n bosib cael mynediad at, neu gasglu' y wybodaeth yma.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl gyda nodweddion gwarchoddedig isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl gyda'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|--|-----------------------|--|
| Cyffredinol | Positif | <p>Bwriad y Cynllun yw sicrhau fod ymwybyddiaeth o anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu gwreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor. Gan fod pawb gyda nodweddion megis hil, oedran a rhyw bydd hyn yn sicrhau fod gwasanaethau'n cael eu gwella ar gyfer pawb o bobl Gwynedd. Wedi dweud hynny, bydd angen rhoi mwy o sylw i rai carfannau na'i gilydd, ac felly byddent yn elwa mwy.</p> <p>Rydym yn gwneud Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y gwahanol brosiectau o fewn y Cynllun a bydd y gwaith o ymgysylltu a chasglu gwybodaeth sydd wedi ei nodi yn y Cynllun yn greiddiol.</p> |
| Hil (gan gynnwys cenedligrwydd) | Positif | <p>Mae rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi adnabod rhai materion hil yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Teimlir fod polisi iaith y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ddi-Gymraeg sydd o dras leiafrifol (h.y. y rhan fwyaf ohonynt yn ymfudwyr un ai o Loegr neu o wledydd eraill).</p> <p>Rydym yn cydnabod bod hyn yn bryder iddynt, ond hefyd yn nodi ein ddyletswydd statudol i roi statws cyfartal ac i warchod y Gymraeg fel iaith leiafrifol yng Nghymru.</p> |
| Yr iaith | Positif | Cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad i'r penderfyniad i ystyried |

| | | |
|--|---------|--|
| Gymraeg | | <p>laith fel rhan o Gydraddoldeb.</p> <p>Rydym yn cydnabod fod hyn yn bryder ond, ar y llaw arall, gan fod 65% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Iaith sydd yn sicrhau "Bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser." Mae gallu gweithredu'r polisi hwn yn gyson ar draws y sir gyfan, a sicrhau bod unigolyn yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg os ydynt yn dymuno hynny (yn unol â'r gofyn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) yn golygu bod rhaid ysgytied y Gymraeg wrth recriwtio ac wrth ddatblygu gwasanaethau.</p> <p>Dylid cofio bod unrhyw siaradwr Cymraeg sydd yn cael ei benodi i swydd o reidrwydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg hefyd.</p> <p>Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried gyda'r ffactorau eraill. Hefyd gweler Hil, uchod</p> |
| Anabledd | Positif | <p>Mae materion ynglŷn ag anabledd wedi eu hadnabod (gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr i'r holiadur). Byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y Gwasanaethau ac fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gweithredu.</p> <p>Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Nodwyd fod y lluniau yn y ddogfen yn rhy lachar felly byddwn yn darparu fersiwn du a gwyn yn ogystal â fformatau eraill.</p> <p>Mae'r Cyngor yn derbyn y model cymdeithasol o anabledd.</p> |
| Rhyw | Positif | <p>Mae cyfraniad merched ym myd gwaith ac fel cynrychiolwyr wedi cael ei godi gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr i'r holiadur. Bydd hyn yn cael sylw pellach yn cael ei wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> |
| Oedran | Positif | <p>Mae materion ynglŷn ag oedran wedi eu hadnabod a byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y gwasanaethau ac wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu.. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Positif | <p>Mae materion ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol wedi eu hadnabod gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr i'r holiadur a byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y gwasanaethau ac wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> |
| Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred) | Positif | <p>Mae un ymatebwr i'r ymgynghoriad wedi adnabod rhai mater crefydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Teimlai fod polisi iaith y Cyngor yn atal pobl ddi-Gymraeg a gallai hyn gynnwys pobl o rai crefyddau. Byddem yn dadlau mai mater hil yw hyn, ac nid crefydd. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> |
| Ailbennu | Positif | <p>Mae materion ynglŷn ag ailbennu rhywedd wedi eu</p> |

| | | |
|--------------------------------------|---------|--|
| rhywedd | | hadnabod gan y Grŵp Craidd a'r ymatebwyr i'r holiadur. Bydd hyn yn cael sylw pellach yn cael ei wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod). |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Positif | Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod). |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Positif | Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod). |

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|--|------------------------------|--|
| Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth | Ydi | Mae tystiolaeth y Grŵp Craidd Cydraddoldeb wedi dangos fod pryder gan yr aelodaeth am rai o'n gwasanaethau, ac mae rhai sylwadau am faterion gweithredol wedi cael eu derbyn yn y ymateb i'r holiadur. O'i weithredu'n iawn, bydd y Cynllun Gweithredu'n ymdrin â hyn gan y bydd yn gwella'r ffordd rydym ni'n gweithredu. Byddwn yn casglu gwybodaeth a bydd yn rhoi gwybod i ni os oes camwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn digwydd er mwyn gweithredu arno. |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi | Bwriad y Cynllun yw gweithio tuag at sicrhau tegwch i bawb. Mae tystiolaeth y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr yn dangos fod gennym waith i'w wneud i'r perwyl yma. Byddwn felly'n casglu tystiolaeth bellach, yn unol â Phwyntiau Gweithredu'r Cynllun, ac yn gweithredu ar y canlyniad. Mae gennym hefyd Bwyntiau Gweithredu sy'n cychwyn ar y gwaith. |
| Meithrin perthnasau da | Ydi | Mae perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rannu yn dod o sicrhau tegwch i bawb. Trwy gwblhau'r Cynllun Gweithredu, a gweithredu'n bositif tuag at rhai nodweddion, byddwn yn sicrhau y bydd ein gwasanaethau'n deg. |

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bwriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd yw gwneud effaith sylweddol, bositif ar fywydau pobl Gwynedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau a hefyd ein staff. Rydym wedi defnyddio'r sylwadau perthnasol sydd wedi eu derbyn o'r ymgysylltiad i wella'r Cynllun. Bydd y materion gweithredol yn cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ni adnabuwyd unrhyw effeithiau sylweddol negyddol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r ymateb i'r Amcanion gan y Grŵp Craidd ac o'r holiadur wedi bod yn bositif iawn. Mae'r sylwadau sydd wedi eu rhoi gan rai wedi dangos i ni nad oedd geiriad rhai Amcanion a gweithgareddau yn ddigon clir, yn arbennig amcan 5, ac rydym wedi newid hynny. Byddwn yn pasio sylwadau gweithredol eu natur i'r gwasanaethau cywir ac yn eu cynnwys fel rhan o'r ymgysylltiad (Amcan 2)

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Dim yn berthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2020.

Byddwn yn monitro yn gyson, yn enwedig fel mae canlyniadau unrhyw waith casglu tystiolaeth yn dod i mewn. Byddwn hefyd yn gwneud Adroddiad Blynyddol yn fuan ym mhob blwyddyn ariannol i adrodd ar unrhyw gynnydd o'r flwyddyn flaenorol. Bydd angen canlyniadau cyfrifiad 2021 yn ddefnyddiol.

Byddwn yn gwneud Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.